**LC1442**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VI o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 sy’n gwneud darpariaeth parthed swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") er mwyn caniatáu, pan fo’r Comisiynydd a’r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hy^n yng Nghymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â’r un mater, i’r Comisiynydd a’r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hy^n yng Nghymru lunio adroddiad ar y cyd. Mae darpariaeth debyg yn berthnasol yn Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hy^n Cymru 2007. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio’r diffiniad o "y Prif Weinidog" yn Rheoliadau 2001 yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

### 30 Ionawr 2007